Ymwelydd yn dod i aros

Gweithgareddau

Un bore, mae'r plant yn cyrraedd y tu allan ac yn darganfod rhywbeth anarferol – nyth enfawr (neu lawer o nythod bach) sy'n anghyflawn. Mae brigau mawr, mwsogl, plu a changhennau wedi'u crynhoi, ond mae'r nyth wedi'i gadael ar ei hanner. Efallai fod beth bynnag a ddechreuodd greu'r nyth wedi gadael cyn iddo allu ei gorffen. Gwahoddwch y plant i helpu i orffen adeiladu'r nyth gan ddefnyddio brigau, dail, rhisgl, blancedi a deunyddiau naturiol. Gerllaw, gosodwch gliwiau y bydd y plant yn sylwi arnynt efallai – olion traed mawr yn y mwd, eitemau sgleiniog dan ddail, plu'n sownd mewn canghennau, olion crafu ar foncyffion, neu lwybr sy'n mynd i mewn i'r llwyni. I beth y gallai'r nyth fod yn perthyn? Draig gysglyd? Aderyn enfawr? Creadur hud a lledrith o'r coetir, na ellir ei weld ond yn ystod y nos?



Offer

- Brigau
- Cerrig
- Mwsogl
- Cynfasau
- Wyau hud a lledrith?
- Brwsh dannedd anifail?!

Cwestiynau allweddol

Pwy adeiladodd y nyth?
Ydyn ni am ei helpu?
Pam y mae wedi aros fan hyn?
A yw'n lle diogel iddo?

Deilliannau dysgu

Mae gwahoddiadau syml, dychmygus fel hyn yn annog y plant i gydweithio, adrodd stori, datrys problemau a meddwl yn greadigol, ac maent hefyd yn eu helpu i weld y man awyr agored fel lle sy'n llawn posibilrwydd, dirgelwch ac antur.

Symud y dysgu yn ei flaen

- Sgyrsiau am anifeiliaid yn mudo, pwysigrwydd teimlo'n ddiogel, a pham/pryd y dylem helpu.
- Y cartrefi y mae anifeiliaid yn eu hadeiladu, a nythod, gweoedd a chuddfannau o bob rhan o'r byd.
- Pwy arall sy'n ymweld â'n gardd ar ôl iddi nosi? Gallech osod camera i gael gwybod.